CYHOEDDIAD

# Cyfarfod y Fforwm Strategol ar Fuddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, 27 Chwefror 2023: cofnodion

Cofnodion cyfarfod y Fforwm Strategol ar Fuddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, 27 Chwefror 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Gorffennaf 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Gorffennaf 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-27-chwefror-2023-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


1. Croeso

2. Diweddariad gan OECD

3. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

4. Local government update

5. Unrhyw fater arall

Atodiad A: rhestr o mynychwyr



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-27-chwefror-2023-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 1. Croeso

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy ddiolch i'r aelodau am eu presenoldeb a chroesawu cynrychiolwyr o lywodraeth leol – Derek James (RhCT), Paul Relf (Abertawe) a Sioned Williams (Gwynedd) – i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) nawr bod Llywodraeth y DU wedi rhyddhau'r dyraniadau ariannol i awdurdodau lleol ar gyfer 2022/23 ym mis Ionawr 2023.

Anogodd y Cadeirydd aelodau o sectorau eraill i rannu eu profiad o ddefnyddio'r Gronfa a nododd y byddai trafodaeth agored ar ôl y diweddariad am lywodraeth leol.

Croesawodd y Cadeirydd hefyd Maria-Varinia Michalun (MVM) o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i'r cyfarfod i gyflwyno a chyflwyno cam presennol gwaith yr OECD gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu economaidd rhanbarthol.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, cymeradwywyd cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol ar 8 Rhagfyr heb wneud sylw pellach.

# 2. Diweddariad gan OECD

Cyflwynodd MVM brosiect cyfredol yr OECD a nododd ei nod i fwrw ymlaen â rhai o'r argymhellion yng ngham cynharach y gwaith rhwng yr OECD a Llywodraeth Cymru a gynhyrchodd adroddiad a gyhoeddwyd yn 2020 **Dyfodol Datblygu Rhanbarthol a Buddsoddi Cyhoeddus yng Nghymru.**

Bydd y cam gwaith presennol yn canolbwyntio ar atgyfnerthu dulliau traws-sector o ymdrin â pholisi rhanbarthol. Bydd hefyd yn cefnogi Llywodraeth Cymru,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-27-chwefror-2023-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cyrff rhanbarthol ac awdurdodau lleol yng Nghymru i gynllunio'n strategol mewn modd mwy integredig ar gyfer datblygu rhanbarthol.

Yn ogystal â chwblhau ymarfer mapio o strategaethau Llywodraeth Cymru, cynhaliodd yr OECD arolwg dinasyddion y llynedd i ofyn am adborth ar flaenoriaethau ar gyfer gwahanol lefelau o lywodraeth a dyheadau yn y dyfodol. Cafwyd tua 1,500 o ymatebion i'r arolwg.

Dywedodd MVM y bydd cam nesaf y gwaith yn cynnwys gosod gweledigaethau, cynllunio a datblygu dull hirdymor o ddatblygu economaidd rhanbarthol yng Nghymru.

Dros y misoedd nesaf, bydd yr OECD yn ymweld â Chymru i gynnal ystod o weithdai ar gyfer nifer o grwpiau o randdeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni rhanbarthol.

Mewn ymateb i'r diweddariad gan OECD, cyflwynodd yr aelodau y sylwadau canlynol:

- Mae ymyrraeth Llywodraeth y DU mewn buddsoddiad rhanbarthol datganoledig yn amharu ar ddulliau datblygu rhanbarthol yng Nghymru.
- Dywed Llywodraeth y DU ei bod yn agored i fodelau newydd ond mae profiad wedi dangos nad yw ffrydiau ariannu newydd wedi bod yn sensitif i bolisi datganoledig na ffyrdd rhanbarthol o weithio sydd wedi hen ennill eu plwyf.
- Mae'r cronfeydd Ffyniant Gyffredin a Ffyniant Bro yn rhaglenni tymor byr sy'n cyd-fynd â chylch yr Adolygiad o Wariant sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2024/25. Mae'n hanfodol bod y rhai fydd yn dod yn eu lle yn gweithio'n well ac yn cael eu cydgysylltu'n well â phartneriaid yng Nghymru.

Yn dilyn y sylwadau hyn, cyflwynodd MVM y canfyddiadau o arolwg y dinasyddion a'r gweithdai gyda rhanddeiliaid a gynhaliwyd y llynedd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-27-chwefror-2023-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mewn ymateb i'r cyflwyniad, cyflwynodd yr aelodau y sylwadau canlynol:

- Mae twristiaeth, cysylltedd, yr agenda werdd a sgiliau'r gweithlu i gyd yn rhannau allweddol o bolisïau yng Nghymru.
- Gwaith hynod amserol o safbwynt llywodraeth leol. Yn awyddus i alinio ym mhob rhanbarth yn hytrach na chael ffrydiau gwaith ar gyfer awdurdodau lleol unigol.
- Mae'n bwysig bod y gwaith yn ystyried cysylltiadau trawsffiniol a'r integreiddio economaidd gyda rhanbarthau Lloegr.
- Mae Comisiwn ar gyfer addysg ôl-16 yn cael ei sefydlu. O 2024 ymlaen, y Comisiwn hwn fydd yn ymateb i rai o'r heriau a nodwyd yn arolwg y dinasyddion.
- Prosiect strategol hirdymor yw hwn sy'n bwysig i Weinidogion. Mae'n bwysig bod rhwydweithiau rhanddeiliaid yn ymgysylltu'n llawn - mae'n ddarn o waith ar gyfer 'Cymru', yn hytrach na darn o waith gan Lywodraeth Cymru yn unig.

# 3. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

Dywedodd Peter Ryland (PR) fod y gymuned Ymchwil a Datblygu wedi'i siomi gan y sylw a roddwyd yr wythnos diwethaf i'r £1.6bn a oedd wedi'i glustnodi ar gyfer Horizon Europe yn cael ei dynnu'n ôl gan y Trysorlys.

Dywedodd fod Gweinidogion yn gofyn am eglurhad gan Lywodraeth y DU a nododd hefyd fod Gweinidog yr Economi yn lansio Strategaeth Arloesi newydd gan Lywodraeth Cymru heddiw.

Dywedodd David Heath (DH) fod Adran Addysg Llywodraeth y DU (DfE) yn caffael ar gyfer y platfform digidol gwerth £100m ar gyfer rhaglen Lluosi sy'n cael ei gweld fel yr "allwedd" ar gyfer dysgu sgiliau rhifedd. Mae Adran Addysg Llywodraeth y DU yn gobeithio y bydd y platfform yn weithredol erbyn dechrau 2024.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-27-chwefror-2023-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a CLILC i gyflwyno ei chynnig o ran cyflogadwyedd a sgiliau er mwyn sicrhau nad yw'n dyblygu rhaglen Lluosi lle bo modd.

Ychwanegodd DH fod prosiectau sgiliau'r SPF yn tueddu i fod yn lleol yn hytrach na rhanbarthol ac mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bartneriaid ystyried y darlun rhanbarthol ar ôl i'r holl brosiectau gael eu cymeradwyo.

Mewn ymateb i'r diweddariad gan Lywodraeth Cymru, cyflwynodd yr aelodau y sylwadau canlynol:

- Mae cyfnod byr yr SPF yn creu risg o ran beth fydd yn digwydd i'r carfanau sy'n cymryd rhan pan ddaw'r cyllid i ben.
- Mae'n bwysig bod data'n cael ei ddefnyddio ar gyfer monitro a gwerthuso i gefnogi cynllunio tymor hwy o gwmpas y ddarpariaeth.
- Mae tanwariant mewn perthynas â rhaglen Lluosi yn risg. Mae pwysau ar yr Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau (DLUHC) i fod yn hyblyg fel bod modd rhyddhau arian sydd heb ei ddyrannu i'w ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau eraill yr SPF, fel Pobl a Sgiliau.

# 4. Local government update

Cyflwynwyd Paul Relf (PRe), Sioned Williams (SW) a Derek James (DJ) gan y Cadeirydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr SPF ym mhob un o ranbarthau Cymru. Nododd nad oedd Carwyn Jones-Evans (CJE) yn gallu bod yn bresennol ar ran Canolbarth Cymru ond ei fod wedi darparu diweddariad ysgrifenedig a anfonwyd i'r Fforwm cyn y cyfarfod.

Wrth sôn am dde-orllewin Cymru, dywedodd PRe fod rhannau o raglen y Gronfa yn seiliedig ar brosiectau "angor" sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau maniffesto lleol a'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-27-chwefror-2023-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Nododd fod galwad agored wedi'i chlustnodi ar gyfer prosiectau, sy'n seiliedig ar sgiliau sy'n cyfeirio at Gynlluniau Sgiliau Rhanbarthol, i fod i agor cyn bo hir. Ychwanegodd fod disgwyliadau'n cael eu rheoli oherwydd y pwysau o ran cyllid wrth i raglenni'r UE ddod i ben.

Dywedodd SW fod partneriaid yng ngogledd Cymru wedi cael gwahoddiad i gyflwyno cynigion ym mis Ionawr. Bu ymateb enfawr yn y rhanbarth ac roedd awdurdodau lleol bellach wrthi'n asesu ac yn blaenoriaethu'r ceisiadau.

Bydd y prosiectau a flaenoriaethir yn cael eu gwahodd wedi hynny i ail gam y broses ymgeisio ac roedd grŵp partneriaeth traws-sector wedi'i sefydlu i helpu gyda'r broses flaenoriaethu.

Ychwanegodd SW fod y gallu i gyflawni yn allweddol o ystyried bod angen cwblhau pob prosiect erbyn diwedd 2024 a'i bod yn gobeithio y byddai pob prosiect llwyddiannus yn derbyn llythyrau cynnig erbyn mis Mai.

Dywedodd DJ fod y profiad yn ne-ddwyrain Cymru yn debyg i lawer o'r hyn yr oedd PRe a SW wedi'i drafod. Dywedodd bod cytundebau cyfreithiol gydag awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael eu sefydlu.

Mae awdurdodau lleol yn ne-ddwyrain Cymru wedi datblygu cynlluniau unigol a bydd cyflymder cyflwyno'r cynllun yn amrywio, ond mae cronfeydd grant cymunedol i gyd ar agor erbyn hyn. Cyn bo hir, bydd Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi rownd ariannu gystadleuol ar gyfer busnesau a bydd awdurdodau lleol eraill yn cyflwyno cynlluniau tebyg dros y misoedd nesaf.

Ychwanegodd DJ bod Busnes Cymru wedi bod o gymorth mawr o ran osgoi dyblygu darpariaeth, ond bod angen eglurder gan Lywodraeth y DU ynghylch hyblygrwydd gyda chynllun Lluosi cyn gynted â phosib.

Mewn ymateb i'r diweddariad gan lywodraeth leol, cyflwynodd yr aelodau y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-27-chwefror-2023-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

sylwadau canlynol:

- Mae profiad y trydydd sector yn amrywio o fewn rhanbarthau o ran sut mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r sector a'r sianeli cyfathrebu sy'n cael eu defnyddio.
- Byddai'n ddefnyddiol cael proses gydlynu fel bod arferion da a drwg yn cael eu rhannu a gwersi'n cael eu dysgu.
- Mae'r ffaith bod awdurdodau lleol i gyd ar wahanol gamau gweithredu yn peri rhwystredigaeth ymhlith sefydliadau sy'n ceisio cyllid.

# 5. Unrhyw fater arall

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu sylwadau ar Gylch Gorchwyl newydd y Fforwm. Caiff hwn ei gyflwyno nawr i Weinidogion i'w gymeradwyo cyn ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ni chodwyd unrhyw fater arall a dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn ystod yr haf.

# Atodiad A: rhestr o mynychwyr

**Cadeirydd**

Huw Irranca-Davies AS

**Aelodau**

Eirlys Lloyd (Cadeirydd, Rhwydwaith Gwledig Cymru)

Grahame Guilford (Grahame Guilford and Company Ltd)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-27-chwefror-2023-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Nisreen Mansour - Swyddog Polisi, TUC Cymru (Undeb Llafur)

Amanda Wilkinson - Cyfarwyddwr, Prifysgolion Cymru (Addysg Uwch)

Ashley Rogers, , Cyfarwyddwr – Gill and Shaw (Ffederasiwn Pobl Hunangyflogedig a Busnesau Bach Cymru)

Y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd, Cyngor Sir Powys (Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru)

Tim Peppin, Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)

Lowri Gwilym, Rheolwr Tîm - Ewrop ac Adfywio (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)

Rhianne Jones, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol Ymadael â'r UE a Rheoli Tir (Cyfoeth Naturiol Cymru)

Glenn Bowen, Cyfarwyddwr Menter, Cwmpas (Y Trydydd Sector - Menter Gymdeithasol)

Leighton Jenkins, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, CBI Cymru (CBI - Busnes)

Matt Brown, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Partneriaeth y Trydydd Sector)

Rob Hunter, Pennaeth Strategaeth (Banc Datblygu Cymru)

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Partneriaeth Gogledd Cymru)

Yr Athro Rachel Ashworth, Deon a Phennaeth Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-27-chwefror-2023-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Derek James, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Llywodraeth Leol)

Paul Relf, Cyngor Abertawe (Llywodraeth Leol)

Sioned Williams, Cyngor Gwynedd (Llywodraeth Leol)

Maria Varinia Michalun, , Pennaeth Llywodraethu a Chynllunio ar gyfer Datblygu Rhanbarthol (OECD)

Alexis Durand, Is-adran Polisi Rheoleiddio (OECD)

**Mynychwyr o Lywodraeth Cymru**

Peter Ryland - WEFO – Prif Swyddog Gweithredol

Geraint Green - WEFO – Pennaeth Rheoli Rhaglenni (Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chydweithredu Tiriogaethol Ewrop)

Alison Sandford - WEFO – Pennaeth Polisi a Gweithio mewn Partneriaeth

Mike Richards - WEFO – Rheolwr Cyfathrebu

Thomas Mallam-Brown - WEFO – Uwch Swyddog Polisi (Polisi Rhanbarthol)

Sarah Govier - Trysorlys Cymru – Pennaeth Cysylltiadau Rhynglywodraethol

David Rosser - Busnes a Rhanbarthau – Prif Swyddog Rhanbarthol (Y De)

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-fforwm-strategol-ar-fuddsoddi-rhanbarthol-yng-nghymru-27-chwefror-2023-cofnodion-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.